

MENYWOD YN Y RHYFEL BYD CYNTAF

Mae Archif Menywod Cymru yn cynllunio prosiect newydd er mwyn diogelu lle menywod yn hanes y Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghymru, ac felly gobeithio, ychwanegu at ein casgliad o archifau'r Rhyfel Mawr. Yn ystod cyfnod cyntaf y prosiect byddwn yn darparu pecyn o adnoddau, gan gynnwys set o 6 i 8 'poster' A4 o fenywod nodweddiadol o gyfnod y rhyfel: athrawes, gweithwraig mewn ffatri ffrwydrion, geid, tocynwraig, gweithwraig amaethyddol, nyrs, aelod o'r lluoedd arfog a mam milwr, ar gyfer y grwpiau fydd yn cyfranogi ynddo. Rydym yn gwybod pwy yw rhai o'r menywod hyn, gallwn ddarganfod eraill trwy ymchwilio, ac mewn rhai achosion, nid oes gennym ddelweddau o'r fath fenywod na merched yng nghasgliadau'r Archif. Nod y posteri fydd hyrwyddo trafodaeth a rhoi hwb i'r cof, ac efallai arwain unigolion neu grwpiau i ymchwilio ymhellach, ac i adnabod defnyddiau archifol y gellid eu rhoi ar adnau trwy'r Archif neu eu sganio ar gyfer archif ddigidol.

Mae'r Llyfrgell Genedlaethol eisoes yn cynnal prosiect o'r fath, wedi'i ariannu gan JISC a Llywodraeth Cymru 'i ddwyn ynghyd adnoddau gwreiddiol yn ymwneud â'r Rhyfel Byd Cyntaf o Lyfrgelloedd, Casgliadau Arbennig ac Archifau Cymru.' Gweler y wefan www.cymru1914.org. O edrych yn frysiog drwy'r c.500 eitem sydd yn y casgliad ar hyn o bryd, gwelir bod llai na 25 ffotograff sy'n cynnwys menywod - yn bartneriaid a mamau - a dim un o fenyw fel unigolyn. Mae'n amlwg fod bwlch enfawr i'w lenwi yma. Gobeithiwn y bydd modd cynnal arddangosfa yn dathlu rôl menywod yn y Rhyfel ar derfyn y prosiect, i gyd-fynd â chanmlyddiant rhyddfrefinio rhannol menywod yn 1918.

Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr o Archif Menywod Cymru a fyddai â diddordeb mewn treialu'r defnyddiau gyda grŵp y maent yn aelodau ohono eisoes, er enghraifft P30, grwpiau hanes lleol, Merched y Wawr neu grwpiau trafod llyfrau. Prosiect ar gyfer y genhedlaeth hŷn fydd hwn ar y dechrau (gobeithiwn y bydd yr ail gyfnod yn cynnwys ysgolion), gan fod ganddynt hwy atgofion am berthnasau hŷn a oedd yn fyw adeg y Rhyfel Mawr, ac efallai fod ganddynt ddarluniau a dogfennau yn perthyn i'w cyndeidiau. Os oes gennych ddiddordeb yn y prosiect, neu os hoffech ragor o wybodaeth, cysylltwch â Caroline Fairclough o.g.y.dd. caroline.fairclough@yahoo.co.uk.



Athrawes ifanc yn
Ysgol Sant Martin,
Hwlfordd, 1915.

Dathlu 20 mlynedd o Astudiaethau Menywod ym Mhrifysgol Bangor

Mae'r MA Astudiaethau Menywod yn unigryw yng Nghymru, ac mae'n cynnig cyfle unigryw i astudio damcaniaeth rhywedd, hanes menywod yng Nghymru, llenyddiaeth gan fenywod a materion yn ymwneud ag addysg, iechyd a gwaith fel y maent yn perthnasu i fenywod heddiw ac yn y gorffennol. Dechreuodd y garfan gyntaf o fyfyrwyr ar y rhaglen yn Ionawr 1994. Rhoddodd y cwrs gyfle unigryw i fenywod yn arbennig gyfuno datblygiad personol â gwaith a chyfrifoldebau teulu. Sefydlwyd y rhaglen trwy weledigaeth ac egni Sandra Sherwood ym maes Dysgu Gydol Oes, gyda chymorth cydweithwyr unigol o adrannau eraill.

Cynhadledd 2014

Cynhelir hon ym Mhrifysgol Bangor, yn rhan o'r dathliadau pen-blwydd, ar y 4ydd a'r 5^{ed} o Hydref. Bydd rhaglen fanwl a ffurflenni archebu lle ar gael yn fuan. Cadwch eich llygaid ar y wefan a'ch e-bost.

Ysgrif goffa : Margery Lewis

Cwrddais â Margery Lewis am y tro cyntaf yn 1996 pan oeddwn yn gweithio gyda'r diweddar Ursula Masson yn ymchwilio i'r Mudiad Rhyddid Menywod (Mudiad Heddwch Menywod) yn ne Cymru yn ystod yr 1970au a'r 80au. Dwedwyd wrthyf ei bod yn un o brif ffigurau'r mudiad heddwch menywod, gan iddi gymryd rhan yn yr orymdaith o Gaerdydd i Gomin Greenham, a arweiniodd at sefydlu'r Gwersyll Heddwch Menywod, yn Awst 1981, pan oedd hi'n 61 oed.



Euthum i'w gweld yn ei chartref yn y Rhâth, Caerdydd, lle bu'r sôn am ei bywyd diddorol cyn dod i Gaerdydd yn yr 1960au. Yna, buon ni'n canolbwyntio ar ei chyswllt â'r mudiad heddwch menywod yng Nghymru. Yn dilyn cymryd rhan yng ngorymdaith Caerdydd i Greenham, parhaodd i ymweld â'r gwesryll yn rheolaidd, gan yrru o Gaerdydd gyda menywod eraill ar gyfer 'gwynnos,' fel y gallai'r menywod oedd yn aros yn

y gwersyll gael noson o gwsg. Soniodd hefyd am weithredoedd eraill, gan gynnwys gorymdaith menywod o Gaerdydd i Freudeth (sir Benfro), protestiadau yn y Ffatri Ordnans Frenhinol yn Llanisien, Caerdydd, a'r 'gwersyll heddwch' rhyfeddol a sefydlwyd gan grŵp bychan yng nghanol y Porth, y Rhondda ym mis Tachwedd 1981. Roedd ei storïau yn ysgogi'r meddwl ac weithiau'n ddoniol iawn, a mwynheais y cyfweiliad yn fawr.

Ymadewais â'i chartref â sawl bag o ddefnyddiau, yn eu plith: cylchlythyron, toriadau papur newydd, ffotograffau a llawer mwy. Arweiniodd y rhain, a nifer o gasgliadau eraill a gefais yn sgil y prosiect hwn, at y cyfarfod ym mis Rhagfyr 1997 a roes fodolaeth i AMC/WAW. Rhoddwyd papurau Margery ar adnau yn Archifdy Morgannwg, lle maent yn un o nifer o gasgliadau pwysig o eiddo AMC/WAW, sy'n ymwneud â'r mudiad heddwch menywod yng Nghymru.

Ymddengys iddi barhau o gylch ei phethau i'w 90egau, a bu farw yn Awst 2013 yn 97 oed.

Avril Rolph, Mai 2014

Ysgol Undydd Arberth, Mai 17

Mae'r Archif a Llafur wedi trafod y posibilrwydd o gynnal digwyddiad ar y cyd ers peth



amser, a braf oedd bod yng Nghanolfan y Bloomfield, Arberth a gwireddu breuddwyd ym mis Mai! Cawsom ddiwrnod hynod o fuddiol gyda'n gilydd, gan edrych ar nifer o wahanol agweddau ar waith menywod yn ystod yr ugeinfed ganrif, dan gadeiryddiaeth gelfydd Martin Wright, Cadeirydd Llafur.

Braf oedd clywed am ddatblygiad prosiect diweddaraf yr Archif i'w ariannu gan Gronfa Treftadaeth y Loteri, sef *Lleisiau o Lawr y Ffatri*. Cyflwynwyd hwn gan Lywydd yr Archif, yr Athro Emeritws Deirdre Beddoe, a hynny yn ei ffordd ddihafal ei hun. Aeth Catrin Edwards, un o'r swyddogion maes, ymlaen i'n harwain trwy rai o'r storïau a gasglwyd cyn belled, gan dynnu ein sylw at amrywiaeth o brofiadau a thystiolaeth werthfawr i fywyd a gwaith menywod yn yr 1950au a fyddai wedi diflannu o gofnod hanes oni bai i'r Archif ddechrau eu casglu. Roedd yn amlwg i'r gynulleidfa werthfawrogi hyn, a gwerthfawrogi hefyd ffordd ddiymhongar ond broffesiynol Catrin o gyflwyno'r gwaith.

Edrych ar hanes 'cudd' carfan arall o fenywod a wnaeth Katherine Holden wrth roi trosolwg i ni o waith y 'nanny': merch o'r dosbarth gweithiol fyddai'n gofalu am blant rhai gwell eu byd. Roedd dylanwad y menywod hynny, a'u statws amwys o fewn y teulu, i'w canfod yn glir, ac, unwaith eto, dyma waith 'anweledig' gan fenywod cyffredin, yn y gorffennol ond heddiw hefyd.

Roedd y fideo, *Lavender Ladies*, a wnaethpwyd gan griw o fenywod yn Nhrefdraeth, ac a gyflwynwyd i ni gan Penny Jones, yn enghraifft arall, ac un bwerus iawn, o'r angen i gasglu tystiolaeth ar lafar cyn i dreigl amser ein hamddifadu o'r cyfle.

Dyma uchafbwyntiau'r diwrnod i fi, ond ni fyddwn am ddibrisio'r cyflwyniadau difyr a dadlennol a gawsom gan Rosemary Scadden ar waith morynion tŷ, a Beth Jenkins ar waith menywod proffesiynol yn ystod y Rhyfel Mawr. Rwy'n siŵr bydd rhai ohonoch wedi dewis y rheiny, ond rwy'n siŵr hefyd y bydd y Golygydd yn hapus ddigon i gynnwys eich sylwadau yn y rhifyn nesaf!

Ie, da iawn oedd dod at ein gilydd yn Arberth ar ddiwrnod hyfryd o Fai, i gwrdd â hen ffrindiau, a gwneud ffrindiau newydd hefyd, gan fod nifer o bobl o'r ardal wedi mynychu'r achlysur. Dyma un o fanteision cynnal ein cyfarfodydd mewn gwahanol ganolfannau ar draws Cymru, a gobeithio'n wir y bydd nifer o'r wynebau newydd hyn yn datblygu'n 'hen wynebau' yn y dyfodol.

Elin Jones

'Lleisiau o Lawr y Ffatri'

Mae'n anodd credu ein bod tua thri chwarter trwy'r prosiect hwn bellach. Pan gychwynnon ni ym mis Hydref, roedd gennym nifer o dargedau i'w cyrraedd: 140 o gyfweiliadau gan fenywod fu'n gweithio yn y diwydiannau gweithgynhyrchu rhwng 1945 ac 1975 i'w cwblhau gan ein tair Swyddog Maes yn y gogledd, y de-ddwyrain a'r de-orllewin; tua 30-60 cyfweiliad gan gyfwelewyr gwirfoddol wedi'u hyfforddi ledled Cymru; a'r cyfan yma wedi'u trawsysgrifio a meta data manwl wedi'i gadw ar gyfer pob agwedd ar y prosiect.

A beth ydyn ni wedi'i gyflawni hyd yn hyn? Rydym yn falch i gyhoeddi bod ein Swyddogion Maes rhyngddynt wedi cyfweild tua 120 o siaradwyr eisoes, gan gynnwys ambell ddyn a rhai gweithwyr gwyliau dros dro; ac mae'r gwirfoddolwyr wedi cwblhau tua 37 cyfweiliad. Golyga hyn ein bod wedi cyrraedd ein targed gwreiddiol, fel y cytunwyd arno gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri, i gyfweild rhwng 150 a 200 o siaradwyr i gyd. Mae'r siaradwyr hyn wedi adrodd hanesion rhyw 150 o ffatrioedd gwahanol ac mae tua thraean y cyfweiliadau yn y Gymraeg.

At hyn, rydym wedi casglu archif wych o ffotograffau ac mae'r Swyddogion Maes wrthi ar hyn o bryd yn paratoi arddangosfeydd o'r ffotograffau, y dogfennau a'r dyfyniadau o'r cyfweiliadau i ddarlunio'r prosiect ac i'w harddangos mewn canolfannau neilltuol ledled Cymru.

Un o agweddau mwyaf boddhaol y prosiect fu cyfranogiad gwirfoddolwyr brwdfrydig a chefnogol sydd wedi helpu gydag agweddau cyllidol, gweinyddiaeth, creu arddangosfeydd, ac yn arbennig felly gyda'r cyfweild. Mae'r tri chwrs hyfforddi wedi rhedeg yn esmwyth ac mae gan yr Archif ddyled enfawr i'r rhai sydd wedi'u mynychu. Ymddengys i'r cyfweild fod yn brofiad dymunol ac addysgiadol i bawb. Yn sicr, fel gwirfoddolwraig fy hun, teimlwn yn ostyngedig o glywed yr hanesion, a gallwn werthfawrogi'n llawer gwell storïau'r menywod hyn a sylweddoli iddynt gyfrannu cymaint at economi Cymru yn y cyfnod hwn.

Catrin Stevens (Cydlynnydd y Prosiect)

Kate Sullivan (Swyddog Maes gogledd Cymru) yn dangos i'n cyfwelewyr gwirfoddol yng ngogledd Cymru sut i feistrolï'r offer recordio. O'r chwith i'r dde: Kate, Wena Grant, Val Wakefield, Shan Robinson a Sue Trevelyan-Jones.



Eisteddfod Genedlaethol Sir Gâr.

Cofiwch ddod i glywed cyflwyniad AMC, 'Lleisiau o Lawr y Ffatri', ym Mhabell y Cymdeithasau 2 yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanelli, ar ddydd Gwener 8fed Awst am 12.30 o'r gloch. Susan Roberts fydd yn sôn am ei phrofiad hi fel Swyddog Maes yn y de-orllewin a chawn gwrdd ag ambell un o'r cyfweleion a gwirfoddolwraig sydd wedi'n helpu. Darperir cyfieithu ar y pryd.

Taith Gerdded Menywod yn Abertawe

Ychwanegiad i raglen penwythnos blynyddol Tŷ Agored Abertawe, ar 13^{eg} a 14^{eg} Medi, eleni, fydd taith gerdded yn canolbwyntio ar hanesion menywod o'r gorffennol. Mae grŵp bychan o aelodau lleol o AMC wrthi'n cynllunio hon fel tipyn o arbrawf. Bydd yn daith gerdded a sgwrsio yng nghanol y ddinas am ddwy awr, a bydd yn sôn am safleoedd lle bu menywod diddorol yn byw, yn gweithio ac yn dylanwadu ar y gymuned. Mae rhai yn weddol adnabyddus, fel Adelina Patti ac Amy Dillwyn. Mae eraill yn haeddu mwy o sylw. .

Yn eu plith mae storïau dwy weithwraig mewn ffatri bowdwr a laddwyd yn y Rhyfel Mawr, gwraig a weithiodd dros ddiddymu caethwasiaeth, tywysoges, menywod cocos, swffragetaid, undebwyr llafur, gwrthwynebwraig gydwybodol a mwy. Rhychwentir cyfnod o eni Ann o Abertawe (awdures gynhyrchiol a redai'r Baddondy lleol) yn 1764, hyd at farwolaeth Val Feld, Aelod y Cynulliad, yn 2001.

Ein nod yw dangos rhai o'r cyfraniadau a wnaeth menywod i'n dinas yn y gorffennol, ac ysbrydoli'r cyhoedd i fynd ati i ddarganfod mwy eu hunain. Yn y tymor hir gobeithiwn ddyfeisio taith hunan-arweiniad a fydd yn cwmpasu ardal leol ehangach, fel y gwnaethpwyd yn y Barri.

Gail Allen

... a mwy o newyddion o Abertawe

Dadorchuddiwyd yr ail blac glas i fenyw o Abertawe yn y Ganolfan Ddinesig, Abertawe ar yr 2il o Fehefin. Rhedai Ann Julia Hatton, a elwid yn 'Ann o Abertawe' Faddondy Abertawe gyda'i gŵr William ar y safle hwn o 1799 i 1806. Ysgrifennodd gerddi, libretti (ei hopera Tammany: the Indian Chief, a ysgrifennwyd yn Efrog Newydd cyn iddi symud i Abertawe, oedd y libreto pwysig cyntaf i'w gyfansoddi yn America ar thema Americanaidd, ac efallai'r cyntaf i'w ysgrifennu gan fenyw) a nofelau gothig poblogaidd iawn.

Sybil Crouch, Cynghorydd yn Abertawe, yn dadorchuddio'r plac.



Prosiect Cofebion y Rhyfel

Cafwyd cyfeiriad byr at hyn yng Nghylchlythyr Mawrth, ond gan y bydd aelodau yn teithio ledled Cymru'r haf hwn, gofynnwn i chi gadw golwg am fwy o fenywod y ceir cofnod ohonynt ar ein Cofebion Rhyfel. Ar hyn o bryd mae gennym dros ugain enw a gofnodir ar feddau a chofebion o'r Rhyfel Byd Cyntaf, yn eu plith Ethel Thomas fu farw yn gwasanaethu ym Mesopotamia, a Dorothy Mary Watson a Mildred Owen, gweithwyr ffatri bowdwr a laddwyd mewn ffrwydrad ym Mhen-bre ac a goffeir ar Gofeb Abertawe, i ryw Amy Prosser anhysbys y gwelir ei henw ar bostyn giât yng Ngofilon, sir Fynwy a Mrs JE Howdle a foddwyd pan suddwyd y Lusitania, 1915 ac a goffeir ar Gofeb Benllech, Ynys Môn. Mae Catrin Stevens yn frwd i gasglu mwy ac wedi ychwanegu tua 15 enw at y rhestr.

Rydym yn casglu enwau a ffotograffau o'r Ail Ryfel Byd yn ogystal â'r Rhyfel Mawr.

Byddem wrth ein bodd petaech yn anfon darlun o unrhyw adysgrif y dewch at ei thraws, ynghyd â manylion ei lleoliad at catrin@stevens2760.freeserve.co.uk neu caroline.fairclough@yahoo.co.uk fel y gallwn eu cynnwys ar fas data, a rhoi'r lluniau ar ein cyfrif Flickr, sy'n hygyrch trwy'r adran i aelodau, ar y wefan.

Croesewir cyfraniadau i'r Cylchlythyr gan bob aelod. Os gallwch anfon eich cyfraniad yn ddwyieithog gwerthfawrogem hynny'n fawr. Anfonwch eich cyfraniadau o.g.y.dda at:

newsletter@womensarchivewales.org

**Dyddiad cyflwyno defnydd i'r rhifyn nesaf:
Dydd Gwener 22 Awst 2014**

Os hoffech gopi print mawr o'r Cylchlythyr hwn, yn Gymraeg neu yn Saesneg, cysylltwch â Caroline ar y cyfeiriad e-bost uchod neu ffoniwch 01873 890540.

Golygwych y Cylchlythyr hwn gan Caroline Fairclough, ac fe'i cyfieithwyd gan Catrin Stevens ac Elin Jones.